Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llansawel**
**Neuadd Llansawel Hall**
**Llansawel**
**Llandeilo**
**Caerfyrddin**
**SA19 7JH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llansawel wedi ei leoli ar dir neuadd bentref Llansawel yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.  Mae'r cylch yn cynnig addysg a gofal plant rhwng 8.30 y bore a 12.45 y prynhawn pob diwrnod o'r wythnos am 39 wythnos y flwyddyn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 17 o blant fesul sesiwn, a derbynnir plant o ddwy i bedair oed.  Mae 17 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda phedwar ohonynt yn cael addysg blynyddoedd cynnar wedi ei ariannu gan yr awdurdod. Saesneg yw prif iaith y cartref i lawer o blant y cylch gyda'r gweddill o aelwydydd lle siaredir y Gymraeg gan o leiaf un rhiant.

Mae tri aelod o staff profiadol a chymwys yn gweithio yn y cylch.  Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2012.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)  ym mis Ionawr 2014 a gan Estyn ym mis Mawrth 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol cylch meithrin Llansawel yn dda oherwydd bod:

- y lleoliad yn rhoi pwyslais cadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu' r plant
- ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y mwyafrif o'r meysydd dysgu sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r plant yn effeithiol
- gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant
- ymarferwyr yn modelu iaith yn dda ac yn cyflwyno'r Gymraeg yn fedrus a chyson
- ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn effeithiol
- y lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella cylch meithrin Llansawel yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn llwyddiannus ac yn egniol
- yr ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cyd-weithio'n effeithiol
- gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ran darpariaeth y lleoliad a safonau'r plant
- yr arweinydd yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor
- ystod dda o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n fuddiol at safonau a lles y plant
- y lleoliad yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod holl ardaloedd y ddarpariaeth barhaus ar gael yn gyson ac yn ymateb yn briodol i anghenion yr holl blant

A2 Cynllunio a darparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar draws pob un o'r chwe maes dysgu yn rheolaidd

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant archwilio, arbrofi a chyfeirio eu haddysg eu hunain

A4 Cynllunio a darparu cyfleoedd cyson i'r plant ddatblygu'r holl ystod o fedrau yn yr awyr agored

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.
Nid oedd tystiolaeth o arfer ragorol yn y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Barn |
|---|---|

**Safonau: Barn**

**Lles: Barn**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau a lles. Mae hyn oherwydd nid oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y mwyafrif o'r meysydd dysgu. Mae hyn yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r plant yn llwyddiannus, er enghraifft mae'r plant yn mwynhau dysgu am wahanol swyddi fel rhan o'u thema. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn elwa o gyfleoedd ar draws pob un o'r chwe maes dysgu yn ddigon rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn effeithiol, ac mae hyn yn arwain at safonau da. Maent yn cynnig nifer o gyfleoedd gwerthfawr i blant ymarfer sgiliau darllen cynnar, trwy ddefnyddio cofrestr weledol a chofrestr emosiwn. Rhoddir ystod eang o gyfleoedd symbylol i blant datblygu eu medrau TGCh mewn sefyllfaoedd pwrpasol, gan gynnwys defnyddio llinell rif electroneg i wirio eu gwaith. Mae'r ymarferwyr hefyd yn darparu'n effeithiol i ymestyn medrau'r plant mwy abl, er enghraifft trwy gynnig cyfleoedd i chwarae rôl pobl sy'n ein helpu, yn dilyn ymweliad symbylol gan swyddog dân. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig darpariaeth barhaus yn gyson i ymateb i anghenion yr holl blant.

Mae'r broses cynllunio'n cynnwys mewnbwn cyson gan yr holl ymarferwyr ac yn arwain at weiddgareddau buddiol o dan arweiniad yr oedolion. Fodd bynnag, nid oes digon o gydbwysedd rhwng dysgu dan gyfarwyddyd oedolyn a dysgu wedi'i harwain gan y plentyn. O ganlyniad, nid ydy'r plant yn cael digon o gyfleoedd i arbrofi, ymchwilio a datblygu eu medrau creadigol yn llawn, nac i ddilyn diddordebau eu hunain. Mae'r cylch yn cynnig cyfleoedd difyr i'r plant ddysgu am fyd natur wrth fynd am dro yn yr ardal gyfagos. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ymarfer eu medrau corfforol mawr yn neuadd y pentref. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid ydy'r cylch yn cynllunio'n ddigon effeithiol ar gyfer datblygu medrau'r plant yn yr awyr agored.

Darperir cyfleoedd ysgogol i blant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn bwy ynddo fel drwy ymchwilio a chymharu Dydd Gŵyl Ddewi a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u treftadaeth Gymreig yn effeithiol drwy ddefnyddio ystod eang o hwiangerddi traddodiadol Cymreig yn fedrus a chyson. Mae hyn yn galluogi plant o gartrefi di-gymraeg i ddatblygu medrau llafar yn y Gymraeg yn naturiol a thrwy hwyl a mwynhad.

**Addysgu: Da**

Mae yr holl ymarferwyr yn cydweithio’n egnïol fel tîm gyda phob un yn hollol ymwybodol o’u cyfrifoldebau addysgu. O ganlyniad, mae awyrgylch dysgu diwyd ac ysgogol yn y lleoliad. Mae ganddynt wybodaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a disgwyliadau uchel o ran ymateb gan y plant. Mae’r holl ymarferwyr yn modelu iaith yn dda ac yn cyfathrebu’n effeithiol gyda’r plant gan gyflwyno’r Gymraeg yn fedrus a chyson. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth a mwynhad y plant o’r Gymraeg yn effeithiol iawn.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae perthynas agos rhyngddynt. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol iawn ac yn eu canmol am eu cyflawniad a’u hymdrechion yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y plant. Yn ystod cyfnodau o weithgareddau dewisol, mae’r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddeallus yn chwarae’r plant gan eu hymestyn a’u cefnogi’n effeithiol. Fodd bynnag mae’r sesiynau a arweinir gan oedolion yn tueddu bod yn rhy hir ac mae ychydig o’r plant yn colli diddordeb. Yn gyffredinol nid oes digon o gyfleoedd i blant wneud penderfyniadau ynglŷn â’u dysgu.

Mae’r ymarferwr yn ymwybodol o anghenion a thargedau pob plentyn. Mae’r gweithdrefnau asesu newydd yn dechrau cael effaith ond nid yw’r arsylwadau yn dylanwadu ar y cynllunio dilynol yn ddigon rheolaidd eto. Rhoddir cyfleoedd buddiol i blant ddechrau gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith plant eraill yn y cylch. Er enghraifft mae’r defnydd o byped yn annog y plant i esbonio iddo am eu gwaith yn adeiladu blociau mawr.

Mae’r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn anffurfiol â rhieni ar ddiwedd y sesiwn, ac am weithgareddau penodol drwy gyfryngau cymdeithasol yn briodol. Mae’r lleoliad yn darparu adroddiadau cynhwysfawr i rieni ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant.

Mae’r lleoliad yn darparu’n effeithiol ar gyfer datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn annog cwrteisi ac ymddygiad da yn llwyddiannus ac yn rhoi pwyslais buddiol ar degwch ac ystyriaeth o eraill. Er enghraifft, maent yn annog y plant i barchu a chefnogi ei gilydd wrth dacluso, ac yn eu hannog i ddiolch am eu ffrwythau ac i aros tro wrth olchi dwylo. Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i’r plant gymryd cyfrifoldeb trwy gymryd tro i ddosbarthu llestri adeg byrbryd a chymryd cyfrifoldebau pwrpasol i weini ar eraill.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo arferion da ar gyfer bwyta’n iach trwy gynnig ffrwythau a diodydd iach i’r plant amser byrbryd yn gyson. Er bod cyfleodd buddiol i’r plant symud i gerddoriaeth ac ymateb i gyfarwyddiadau corfforol yn neuadd y pentref, nid oes digon o gyfleoedd rheolaidd i’r plant cadw’n heini yn yr awyr agored ar hyn o bryd. Mae’r cylch yn dechrau darparu cyfleoedd priodol i’r plant weithredu’n gynaliadwy, er enghraifft trwy ddysgu am dyfu llysiau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae prosesau cadarn i ymateb i anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys cael mynediad at gefnogaeth oddi wrth asiantaethau priodol pan fydd angen. Mae'r ymarferwyr yn targedu ymyrraeth gynnar i hyrwyddo medrau gwrando a siarad y plant yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos teuluol a chynhwysol yn y lleoliad ac mae pob plentyn yn cael ei barchu fel unigolyn. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb wrth fodelu ymddygiad a goddefgarwch yn effeithiol. Defnyddiant ganmoliaeth gadarnhaol i hyrwyddo cydraddoldeb, ac o ganlyniad mae'r plant yn trin ei gilydd yn ystyrlon.

Mae'r lleoliad yn cynnig adnoddau diddorol a phriodol sy'n hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn elwa o'r cyflenwad diddorol a deniadol o lyfrau Cymraeg a'r offer TGCh perthnasol ac ysgogol. Mae'r adeilad yn lan a thaclus ac wedi ei hadnewyddu i safon uchel. Mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol ac wedi'i threfnu'n effeithiol ar y cyfan er mwyn cynnig profiadau amrywiol i'r plant. Fodd bynnag, nid ydy pob ardal o'r ddarpariaeth barhaus, megis y tŷ bach twt a thwba dŵr, ar gael yn gyson. O ganlyniad nid yw'r plant yn cael datblygu eu diddordebau eu hunain ac ymarfer yr holl ystod o fedrau yn ddigon rheolaidd.

Nid oes cyfleoedd cyson i blant ddefnyddio'r ardal allanol fel rhan o'r ddarpariaeth bob dydd. Fodd bynnag, mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda phwyllgor neuadd y pentref i ddatblygu ardal allanol diogel. Maent yn gwneud defnydd priodol o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi profiadau'r plant, er enghraifft trwy ymweld â gardd lysiau a defnyddio neuadd y pentref er mwyn ymarfer eu medrau corfforol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn llwyddiannus ac yn egniol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n gosod datblygiad y Gymraeg a chynnydd plant yn flaenoriaethau uchel. Mae'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'r ymarferwyr, a'r rhieni. O ganlyniad, mae perthynas waith da yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn cyfathrebu'n effeithiol gyda swyddogion y pwyllgor ac maent yn cyd-weithio'n bwrpasol er budd y cylch. Er enghraifft, maent wedi llwyddo i sefydlu'r lleoliad ar safle newydd mewn amser byr gan sicrhau darpariaeth o ansawdd dda i'r plant.

Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cyd-weithio'n effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n bositif at rediad llyfn gweithgareddau'r lleoliad. O ganlyniad i agwedd cadarnhaol yr arweinydd, mae gan holl staff y lleoliad ddisgwyliadau uchel o'r plant ac ohonynt eu hunain, yn enwedig y defnydd o'r Gymraeg ac o ymddygiad y plant.

Mae trefn briodol o reoli perfformiad yn bodoli. Mae hyn yn rhoi cyfle buddiol i'r ymarferwyr werthuso eu gwaith ac adnabod eu hanghenion hyfforddiant gorfodol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydy'r drefn bresennol yn arwain at benodi targedau pendant eto, er mwyn datblygu medrau'r ymarferwyr yn llawn. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod polisïau'r lleoliad i gyd yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n gyson.

Mae'r arweinydd yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan sicrhau bod ffocws effeithiol ar hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gwerthuso eu gwaith o ddydd i ddydd yn reddfol. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol o hunan arfarnu yn dod yn rhan reolaidd o waith y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfarfod yn wythnosol i werthuso'u gwaith ac i drafod gwelliannau pwrpasol, er enghraifft symud adnoddau creu marciau er mwyn denu'r plant atynt yn fwy effeithiol. Mae'r lleoliad yn holi barn rhieni a gofalwyr yn briodol trwy holiadur blynyddol. Mae eu sylwadau wedi arwain at welliannau buddiol, megis defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am weithgareddau'r cylch. Mae'r arweinydd â'r dirprwy yn cyflawni hunanarfarniad ffurfiol yn flynyddol, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella gyda hyder cynyddol.

Mae canfyddiadau'r hunanarfarnu yn cyfrannu at gynllun datblygu perthnasol sydd yn nodi blaenoriaethau pendant. Mae'r broses yn arwain at welliannau buddiol, er enghraifft, datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau TGCh y plant, ac ail sefydlu'r lleoliad ar safle newydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydy'r cynllun yn cynnwys amserlen na chostau penodol nac yn enwi pwy fydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd ar hyn o bryd.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor gan yr awdurdod lleol a chan swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod dda o bartneriaethau effeithiol gan y lleoliad sy'n cyfrannu'n fuddiol at safonau a lles y plant.

Mae partneriaeth gadarn gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth yn gyson am y gwahanol weithgareddau ac am yr hyn mae'r plant yn dysgu. Gwneir hyn trwy gyswllt anffurfiol dyddiol, arddangosfa o waith y plant yn y cyntedd, a defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol. Mae'r ymarferwyr hefyd yn trefnu cyfleoedd i'r rhieni gael gweld y strategaethau dysgu a ddefnyddir yn y lleoliad, gan gynnwys dull newydd o hybu datblygiad corfforol y plant. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ymwybyddiaeth rhieni a gofalwyr o waith y lleoliad a sut mae cefnogi eu plant. Mae'r rhieni yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol i godi arian yn gyson sydd wedi cyfrannu tuag at brynu adnoddau buddiol.

Mae'r cylch yn gwneud yn fawr o bartneriaethau cryf gyda'r gymuned leol. Er enghraifft, maent wedi ail-sefydlu ar safle newydd yn ddiweddar gyda chymorth parod pwyllgor neuadd y pentref. Yn ogystal, derbyniwyd grant sylweddol gan fenter leol tuag at sicrhau cyflenwad o adnoddau symbylol i gefnogi addysg y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Trwy'r partneriaethau hyn, mae'r ymarferwyr yn derbyn syniadau newydd trwy hyfforddiant, ac adnoddau i hybu medrau'r plant. Mae'r cylch yn trosglwyddo plant i nifer o ysgolion yr ardal, ac maent yn datblygu perthynas priodol gyda'r rhain er mwyn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd wedi sicrhau bod gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc ac mae'n rheoli staff yn effeithiol. Drwy hyn mae'n sicrhau bod yr ymarferwyr yn weithgar a diwyd ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae yn gwneud defnydd da o'u doniau er enghraifft, i ddarllen stori a chanu hwiangerddi. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod yr arweinydd yn gwneud defnydd da o bob cyfle i ddatblygu'n broffesiynol a darganfod dulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Rhennir y wybodaeth yn effeithiol ac mae'r holl ymarferwyr, y plant a chymuned y lleoliad yn elwa o hyn yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr eraill yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant proffesiynol ar hyn o bryd. Mae system rheoli perfformiad yn datblygu'n briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i'r ymarferwyr werthuso safon ei gwaith

Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau buddiol er mwyn ymateb i lawer o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac addysg gynnar plant. Mae'r arweinydd a swyddogion y pwyllgor yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad yn bwrpasol ac yn defnyddio cyllid i sicrhau bod cronfeydd addas wrth gefn.

O ystyried safon yr addysgu, yr arweinyddiaeth, a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu lles a medrau iaith, rhifedd a TGCh y plant, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |